

1 Atodiad B.1 – Adolygiad Perygl Llifogydd Ceredigion

1.1 Llifogydd hanesyddol

Mae hanes o ddigwyddiadau llifogydd a gofnodwyd o nifer o ffynonellau llifogydd yn ardal Ceredigion. Mae digwyddiadau llifogydd sylweddol yn ardal awdurdod Cyngor Sir Ceredigion (a godwyd o set ddata CNC o amlinellau llifogydd a gofnodwyd ac o gofnodion Cyngor Sir Ceredigion ac adroddiadau am ddigwyddiadau llifogydd hanesyddol) wedi’u cofnodi isod yn Tabl 1-1. Er bod pob ymdrech wedi’i wneud i gynnwys y digwyddiadau llifogydd mwyaf sylweddol yn Tabl 1-1, nid yw’r rhestr hon yn cynnwys pob digwyddiad o’r fath. Anogir datblygwyr i ymgynghori â’r ALILIA a CNC ynghylch perygl llifogydd hanesyddol i safle datblygu arfaethedig. Mae crynodeb o ddsbarthiad gofodol digwyddiadau llifogydd hanesyddol o garthffosydd yn ôl ward etholiadol wedi’i ddangos yn Tabl 1-2.

Nid oedd cofnodion o lifogydd dŵr daear neu lifogydd o ffynonellau artiffisial wedi cael eu darparu ar adeg ysgrifennu’r adolygiad hwn.

Tabl 1-1 Digwyddiadau Llifogydd yn ôl blwyddyn

Blwyddyn y digwyddiad llifogydd	Lleoliad	Digwyddiad Llifogydd
Rhagfyr 1965	Aberaeron	Gorlenwi’r sianel.
Mawrth 1981	Melin Aber Cerdin	Llifogydd ym Melin Aber Cerdin o Afon Cerdin. Hyd at ddyfnder o 0.38m. Cafwyd llifogydd ar 11/03/1981. Fodd bynnag, cafwyd llifogydd mawr hefyd ar 22/03/1981.
Mawrth 1981	Llechryd	Llifogydd yn ardal Llechryd a Maenordeifi. Dim gwybodaeth bellach ar gael.
Mawrth 1981	Pontrhydfendigaid	Gorlenwi’r sianel gan achosi llifogydd mewn 4 eiddo. Dim gwybodaeth bellach ar gael.
Hydref 1987	Llanbedr Pont Steffan	Gorlenwi’r sianel. Llifogydd yn ardaloedd Llanbedr Pont Steffan a Chwm-ann, yn effeithio ar 8 eiddo yn Llanbedr Pont Steffan a 3 eiddo yng Nghwm-ann. Y ffynhonnell dybiedig yw Afon Teifi. Llifogydd ym Mhrifysgol Llanbedr Pont Steffan o Afon Dulais.
Hydref 1987	Tregaron	Gorlenwi’r sianel. Llifddwr wedi rhedeg i lawr strydoedd ac effeithio ar eiddo yn Tregaron Square, Chapel Street, Dol-dre. Y ffynhonnell dybiedig yw Afon Brenig.
Hydref 1987	Llanybydder	Gorlenwi’r sianel. Llifogydd yn Station Terrace, yn cynnwys siopau. Llifogydd yn selerydd 9 eiddo ac yn eu gerddi. Yn Bridge Street cafwyd llifogydd yn seler y banc. Cyfanswm o 10 o selerydd, 16 o dai a 5 busnes. Dyfnder mwyaf y dŵr yn yr unedau eiddo hyn oedd 1 droedfedd. Ffynhonnell y llifogydd oedd Afon Teifi.
Hydref 1987	Pontrhydfendigaid	Gorlenwi sianel Afon Teifi gan achosi llifogydd mewn 6 eiddo o leiaf.
Hydref 1987	Cenarth	Gorlenwi’r sianel.
Hydref 1987	Dre-fach	Gorlenwi’r sianel.
Hydref 1987	Llechryd	Effeithiwyd ar y gwaith mewnlif cyflenwad dŵr a’r orsaf bwmpio. Tarfu ar y cyflenwad dŵr, o ganlyniad i broblemau ansawdd yn bennaf.
Hydref 1987	Llandysul	Gorlenwi’r sianel.

Blwyddyn y digwyddiad llifogydd	Lleoliad	Digwyddiad Llifogydd
Hydref 1987	Aberaeron	Gorlenwi'r sianel.
Hydref 1989	Glan-yr-afon	Gorlenwi'r sianel. Llifogydd yn ystad ddiwydiannol Glan-yr-afon. Y lefel llifogydd a gofnodwyd oedd 8.69mAOD.
Mawrth 1990	Eglwys-fach - Aber Dyfi	Gorlifo amddiffynfeydd llanwol.
Mawrth 1990	Glandyfi - Aber Dyfi	Gorlifo amddiffynfeydd llanwol.
Mawrth 1990	Afon Cletwr - Aber Dyfi	Gorlifo amddiffynfeydd.
Mawrth 1990	Aberystwyth	Gorlenwi'r sianel. Llifogydd ym mharc diwydiannol Glan-yr-afon.
Ionawr 1997	Ynys-las	Methiant gweithredol/ bylchu amddiffynfa. Ymchwydd llanw wedi llenwi'r aber, gwyntoedd gogleddol wedi gwthio dŵr i fyny Afon Eleri ac wedi achosi methiant cylchol yn yr arglawdd a bwlch o 70m. Cafwyd llifogydd yn yr ardal o gwmpas.
Mawrth 1999	Aberystwyth	Gorlenwi sianel Afon Rheidol. Llifogydd ym mharc diwydiannol Glan-yr-afon.
Tachwedd 2000	Glan-wern, Y Borth	Gorlenwi'r sianel.
Tachwedd 2005	Pont Tyweli	Gorlenwi'r sianel.
Mehefin 2007	Llanbedr Pont Steffan	Llifogydd dŵr wyneb wedi effeithio ar 16 eiddo o ganlyniad i orlenwi systemau draenio ar 11 Mehefin 2007
Mehefin 2012	Dôl-y-bont	Afon Eleri wedi gorlifo gan arwain at lifogydd ym Maes Carafannau Riverside a llifogydd mewnol mewn 19 eiddo.
Mehefin 2012	Capel Bangor	Gorlenwi sianel Afon Rheidol. Llifogydd mewnol mewn 19 eiddo, yn ogystal â charafannau yn y maes carafannau gerllaw.
Mehefin 2012	Aberystwyth	Gorlenwi sianel Afon Rheidol. Llifogydd mewn nifer o unedau eiddo yn Railway Terrace yn ystod y digwyddiad. Roedd y digwyddiad llifogydd wedi achosi llifogydd difrifol yn y parc manwerthu. Disgwylir hefyd y bydd rhwystr hydrologig a achoswyd gan y penllanw yn Harbwr Aberystwyth a lefelau uchaf y llifoedd yn Afon Rheidol wedi atal dŵr rhag gollwng i'r harbwr.
Mehefin 2012	Dôl-y-bont	Gorlifo amddiffynfeydd ar Afon Rheidol. Effeithiwyd ar oddeutu 19 eiddo a 11 carafan sefydlog.
Mehefin 2012	Y Borth	Gorlifo amddiffynfeydd. Effeithiwyd ar oddeutu 33 eiddo (preswyl a masnachol).
Mehefin 2012	Tal-y-bont	Gorlenwi'r sianel.

Blwyddyn y digwyddiad llifogydd	Lleoliad	Digwyddiad Llifogydd
		Gwaethygydd y llifogydd pan gwmpodd wal i Afon Ceulan. Effeithiwyd ar oddeutu 26 eiddo.
Mehfin 2012	Gogledd Ceredigion	<p>Yn ystod y digwyddiad llifogydd, roedd nifer o gyrsiau dŵr heb allu dygymod â lefel y glawiad a gafwyd yn yr wythnos flaenorol a oedd wedi creu amodau tir dirlawn. Cafwyd llifogydd mewnol mewn 120 eiddo. Yr aneddiadau lle cafwyd llifogydd y tu mewn i eiddo preswyl/masnachol oedd: Tal-y-bont, Dôl-y-bont, Y Borth, Capel Bangor, Penrhyn-coch, Llanbadarn Fawr, Llanfarian, Clarach, Goginan, Penbont Rhydybeddau.</p> <p>Mae'r holl gofnodion hyd yn hyn yn awgrymu bod y llifogydd wedi digwydd yng ngorlifdiroedd y gwahanol afonydd/cyrsiau dŵr; effeithiwyd ar fwyafrif y meysydd carafannau oherwydd eu lleoliad.</p> <p>Achoswyd llifogydd hefyd gan ddiffygion strwythurol mewn pontydd a chwlfertau.</p>
Hydref 2012	Aberteifi	Cafwyd llifogydd y tu mewn i 17 eiddo o ganlyniad i lawiad trwm a dwys. Ardaloedd penodol lle cafwyd llifogydd y tu mewn i eiddo preswyl/masnachol oedd Morgan Street, St Mary Street, Church Street, Feidr Fair, Castle Street, Tivy View, a Manarafon.
Ionawr 2014	Aberystwyth	Tonnau wedi gorlifo i'r promenâd yn y Marina a llifo tua'r gogledd ar hyd Rhodfa'r Môr i Victoria Terrace. Effeithiwyd ar nifer mawr o unedau eiddo ar lefel yr is-lawr yn bennaf o ganlyniad i lif dŵr o ymchwydd llanw ar hyd Rhodfa'r Môr a Victoria Terrace.
Ionawr 2014	Y Borth	Tonnau wedi gorlifo o ben deheuol y Borth a llifo tua'r gogledd i'r cwrs golff. Roedd y digwyddiad wedi effeithio ar oddeutu 12 eiddo preswyl a 2 eiddo masnachol. Cafwyd effaith ar unedau eiddo o ddŵr ymchwydd y llanw ac o ganlyniad i orlwytho systemau draenio.
Hydref 2018	Adpar/Castellnewydd Emlyn	Roedd Storm Callum wedi achosi cenllif o law a gwyntoedd cryf dros rannau helaeth o'r DU. Yng Ngheredigion, cafwyd llifogydd mewnol a/neu allanol mewn 31 eiddo preswyl a masnachol o ganlyniad i gyfuniad o ddŵr afonol o Afon Teifi a dŵr glaw ar y wyneb yn gollwng i'r rhwydwaith priffyrdd oddi ar dir preifat.
Chwefror 2020	Llechryd, Aberporth, Tal-sarn	Yn ystod Chwefror 2020, cafwyd pedwar digwyddiad glaw nodedig yng Nghymru a effeithiodd ar ardaloedd yng Ngheredigion. Roedd y stormydd hyn yn cynnwys Stormydd Ciara, Dennis, a George (roedd y bedwaredd heb ei henwi) a oedd wedi digwydd o fewn tair wythnos. Mae cofnodion yn dangos bod 288mm o law wedi disgyn ar gyfartaledd ledled Cymru, sydd yn fwy na phedair gwaith y cyfartaledd misol mewn rhai ardaloedd. Roedd nifer o'r Prif Afonydd wedi gorlifo o ganlyniad i'r glawiad trwm a dwys. O ganlyniad i'r stormydd yn Chwefror 2020, cafwyd llifogydd mewn 4 eiddo ledled

Blwyddyn y digwyddiad llifogydd	Lleoliad	Digwyddiad Llifogydd
		Ceredigion. Cafwyd llifogydd eang o fewn Ceredigion, yn cynnwys Llechryd ac ardaloedd ger Afon Teifi ac Afon Aeron.
Ionawr 2021	Llechryd	Llifogydd a achoswyd gan Storm Christoph a arweiniodd at orlifo glannau Afon Teifi. Roedd y digwyddiad llifogydd wedi effeithio ar Bont Llechryd a nifer o ardaloedd eraill yn nalgylch isaf Afon Teifi.

1.2 Afonydd

Y prif gyrsiau dŵr o fewn Ceredigion yw:

- Bowstreet Brook
- Afon Arth
- Afon Aeron
- Afon Ceri
- Afon Clarach
- Afon Dyfi
- Afon Eleri
- Afon Mydr
- Afon Rheidol
- Afon Teifi
- Afon Wyre
- Afon Ystwyth

Mae'r cyrsiau dŵr hyn wedi'u dynodi'n Brif Afonydd gan CNC. Darperir mapiau sy'n dangos amlinellau llifogydd o Fap Llifogydd ar gyfer Cynllunio CNC – Afonydd yng Ngheredigion yn Atodiad B.2.

Mae Afon Dyfi yn ffurfio ffin rhwng siroedd Ceredigion a Gwynedd. Mae'n codi yn llyn Creiglyn Dyfi ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac yn llifo tua'r de-orllewin drwy dref Machynlleth, cyn cyrraedd Bae Ceredigion yn Aberdyfi. Prif is-afon Afon Dyfi o fewn Ceredigion yw Afon Eleri sy'n llifo tua'r gorllewin i'r Borth ac wedyn tua'r gogledd nes ymuno ag Afon Dyfi.

Nid yw gorlifdir Afon Dyfi yn un pwysig yng Ngheredigion. O fewn y ffin sirol, ceir y perygl mwyaf o lifogydd ar hyd y cwrs dŵr hwn yn Eglwys-fach, lle mae Afon Einion yn ymuno ag Afon Dyfi. Yma ceir Parthau Llifogydd 2 a 3 y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, sy'n dangos bod perygl mawr o lifogydd afonol.

Mae Afon Eleri yn peri risg llifogydd afonol dros ardal eang yn y rhannau isaf, rhwng y Borth ac Afon Dyfi. Mae'r Parthau Llifogydd 2 a 3 yn ystyriaeth bwysig yn yr ardal hon, gan mai yma y mae'r perygl mwyaf o lifogydd o'r afon. Ceir amddiffynfeydd rhag llifogydd o'r afon a reolir gan CNC ar hyd glannau Afon Eleri ar yr ochr dde rhwng y Borth ac aber Afon Dyfi. Er hynny, ni ddynodwyd yr ardal y tu ôl i'r amddiffynfeydd hyn rhag llifogydd afonol yn Barth Amddiffynnol TAN 15.

Mae Afon Rheidol yn codi ym mlaenddyfroedd Cronfa Ddŵr Nant-y-moch ym Mynyddoedd Cambria ac yn llifo tua'r de i Bontarfynach cyn llifo tua'r gorllewin i Aberystwyth, lle mae'n cyrraedd y môr ym Mae Ceredigion.

Mae gorlifdir Afon Rheidol yn weddol gyfyng ac yn agos i'r cwrs dŵr yn y rhannau uchaf. Yn rhannau canolog ac isaf yr afon, ceir Parthau Llifogydd 2 a 3 ac mae'r rhain yn ymestyn hyd at ychydig gannoedd o fetrau oddi wrth y cwrs dŵr gan effeithio ar dir gwledig ac amaethyddol gan mwyaf. Yn rhannau isaf Afon Rheidol, mae Parthau Llifogydd 2 a 3 ar ran helaeth o'r gorlifdir. Mae'r rhain yn effeithio ar ardaloedd amaethyddol yn yr ardal i'r dwyrain o Aberystwyth ac maent hefyd yn peri risg fawr o lifogydd afonol i ddatblygiadau diwydiannol a masnachol yn Aberystwyth a Glanyrafon, yn ogystal â'r A44 sef un o'r prif lwybrau i mewn

i dref Aberystwyth. Ceir amddiffynfeydd rhag llifogydd afonol a reolir gan CNC ar hyd Afon Rheidol i'r gogledd o Lan-yr-afon ac ar hyd rhannau o'r ddwy lan yn Aberystwyth. O ganlyniad i'r amddiffynfeydd rhag llifogydd hyn, mae'r ardaloedd y tu ôl iddynt wedi'u dynodi'n Barthau Amddiffynnol TAN 15.

Mae Afon Ystwyth yn codi ger Pumlumon ym Mynyddoedd Cambria ac yn llifo tua'r gogledd-orllewin gan mwyaf ac yn cyrraedd y môr ym Mae Ceredigion, ychydig i'r de o Aberystwyth. Mae ei gorlifdir yn gyfyng yn y rhannau uchaf ac yn agos i'r cwrs dŵr. Yn y rhannau canolog, mae'r gorlifdir yn dechrau ehangu ac mae Parthau Llifogydd 2 a 3 yn ymestyn dros ardal ehangach, ac yn effeithio'n bennaf ar dir a ddefnyddir i ffermio. Ger aber Afon Ystwyth, mae Parth Llifogydd 3 yn cwmpasu tir helaeth i'r dwyrain o Rydyfelin. Ceir amddiffynfeydd rhag llifogydd afonol ar hyd glannau chwith Afon Ystwyth yn yr ardal hon, gan ddarparu safon diogelwch 1 mewn 100 mlynedd. Hefyd, o ganlyniad i'r amddiffynfeydd hyn rhag llifogydd afonol, mae'r tir y tu ôl iddynt wedi'i dynodi'n Barth Amddiffynnol TAN 15.

Mae Afon Wyre yn afon fach sydd â'i ffynhonnell tua'r gogledd o Fron-nant, ger Cwm-yr-olchfa. Mae'n llifo tua'r gogledd drwy Ledrod, ac wedyn tua'r gorllewin drwy Langwryfon i Fae Ceredigion gan gyrraedd y môr yn Llanrhystud. Wyre Fach yw prif is-afon Afon Wyre. Mae'n llifo i'r de o Afon Wyre gan ddechrau'n agos i Langwryfon a llifo tua'r de-orllewin ac wedyn tua'r gogledd-orllewin gan ymuno ag Afon Wyre i'r dwyrain o Lanrhystud. Mae gorlifdir Afon Wyre a'i his-afonydd yn gyfyngedig i goridor yr afon i raddau helaeth a'r unig Barthau Llifogydd 2 a 3 yw'r rheini sy'n agos i'r afon.

Mae ffynhonnell Afon Aeron yn Llyn Eiddwen sydd i'r gorllewin o Fron-nant. Mae'n llifo tua'r de gan mwyaf i Langeitho cyn llifo tua'r de-orllewin ac wedyn i'r gogledd-orllewin yn Nhal-sarn cyn cyrraedd Aberaeron. Mae Afon Aeron yn llifo drwy Aberaeron ac yn cyrraedd y môr ym Mae Ceredigion. Rhai o brif is-afonydd Afon Aeron yw Aeron Fach, Afon Meurig, ac Afon Mydr. Mae ffynhonnell Afon Mydr i'r de o Fydroilyn. Mae'n llifo tua'r gogledd gan mwyaf cyn ymuno ag Afon Aeron yn Llanaeron. Ceir Parthau Llifogydd 2 a 3 yn agos i Afon Mydr.

Yn rhannau uchaf ac isaf Afon Aeron, mae'r perygl o lifogydd afonol yn gyfyngedig i'r cwrs dŵr i raddau helaeth, a'r unig Barthau Llifogydd 2 a 3 a geir yw'r rheini sydd o fewn tua 100m i'r cwrs dŵr. Ceir y perygl mwyaf o lifogydd afonol rhwng Llangeitho a Chiliau Aeron, lle mae is-afonydd Afon Aeron yn creu gorlifdir ehangach sy'n effeithio ar ardaloedd fel Tal-sarn a Llanllŷr. Ceir amddiffynfa rhag llifogydd afonol a reolir gan CNC yn Aberaeron ar hyd glannau chwith yr afon, sy'n darparu safon diogelwch lai nag 1 mewn 100 mlynedd i ddatblygiad preswyl bach sydd y tu ôl i'r amddiffynfa. Er hynny, nid yw'r ardal hon wedi'i dynodi'n Barth Amddiffynnol TAN 15.

Mae Afon Teifi yn llifo tua'r gorllewin o'i ffynhonnell yn Llyn Teifi, gogledd Ceredigion, ac yn llifo i'r de-orllewin gan mwyaf wedyn gan gyrraedd y môr ym Mae Ceredigion. Mae Afon Teifi yn ffurfio ffin rhwng Ceredigion a sir gyfagos Sir Gaerfyrddin. Prif is-afonydd Afon Teifi yng Ngheredigion yw Afon Ceri, Afon Cletwr ac Afon Cledlyn. Ychydig o berygl o lifogydd afonol a geir ar hyd is-afonydd Afon Teifi, ac mae'r Parthau Llifogydd 2 a 3 yn agos i'r cwrs dŵr.

Ceir amddiffynfeydd rhag llifogydd afonol a reolir gan CNC yn rhannau isaf Afon Mwldan sy'n ymuno ag Afon Teifi yn Aberteifi. Mae'r amddiffynfeydd hyn rhag llifogydd afonol yn darparu safon diogelwch 1 mewn 100 mlynedd. O ganlyniad i bresenoldeb yr amddiffynfeydd hyn, mae'r ardaloedd y tu ôl iddynt wedi'u dynodi'n Barthau Amddiffynnol TAN 15.

Mae Afon Arth â'i ffynhonnell i'r gorllewin o Grynfryn ac mae'n llifo tua'r gorllewin gan mwyaf cyn cyrraedd y môr yn Aber-arth. Ceir Parthau Llifogydd 2 a 3 yn rhannau uchaf Afon Arth ac maent yn gyfyngedig i'r cwrs dŵr. Rhwng Dyffryn Arth a Phennant, ceir Parthau Llifogydd 2 a 3 mwy eang lle mae Afon Brân yn cyfuno ag Afon Arth, a'r rhain yn ymestyn tua 200m oddi wrth y cwrs dŵr. Yn rhannau isaf Afon Arth, mae'r Parthau Llifogydd 2 a 3 yn gyfyngedig i'r cwrs dŵr i lawr yr afon o Bennant. Nid oes amddiffynfeydd rhag llifogydd afonol a reolir gan CNC ar hyd Afon Arth.

Mae ffynhonnell Afon Clarach i'r dwyrain o Benrhiwnyedd ac mae'n llifo tua'r gorllewin gan mwyaf drwy Glarach cyn cyrraedd y môr. Prif is-afon Afon Clarach yw Bowstreet Brook sy'n llifo tua'r de-orllewin gan mwyaf o Bow Street cyn ymuno ag Afon Clarach. Mae'r Parthau Llifogydd 2 a 3 yn gyfyngedig i'r cwrs dŵr gan mwyaf yn rhannau uchaf Afon Clarach. I'r de o Bow Street lle mae Afon Peithyll a Bowstreet Brook yn cyfuno ag Afon Clarach, mae'r Parthau Llifogydd 2 a 3 yn eang ac yn ymestyn tua 100m oddi wrth y cwrs dŵr. Mae Parthau

Llifogydd y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn rhedeg gyda'r afon o'r fan hon nes iddi gyrraedd y môr. Ni cheir amddiffynfeydd rhag llifogydd afonol a reolir gan CNC ar hyd Afon Clarach nac ar hyd ei his-afonydd.

Mae'r Basdata Asedau Llifogydd Cenedlaethol (NFAD)¹ yn cynnwys cofnodion o'r seilwaith llifogydd yng Nghymru, yn cynnwys argloddiau, waliau, llifddorau, cwlfertau, a sgriniau malurion. Mae'r holl RMAs yng Nghymru yn cael eu hannog i gofnodi manylion yr holl asedau y gwyddant amdanynt yn NFAD, yn cynnwys asedau mewn perchnogaeth breifat. Caiff NFAD ei ddiweddarau'n rheolaidd i wella cywirdeb y data. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae CNC yn tynnu sylw at y materion canlynol mewn perthynas â'r gronfa ddata hon:

- gall rhai o'r data fod yn anghywir, fod wedi dyddio neu fod ar goll
- mae'n bosibl nad oes gwybodaeth am rai o'r asedau dan ddaear neu fod y wybodaeth amdanynt yn anghywir
- nid yw gwybodaeth ynghylch Ceredigion yn cael ei dangos
- nid yw cynlluniau Gwrthsefyll Llifogydd mewn Eiddo (PFR) wedi'u cynnwys

Perygl Llifogydd o Afonydd a TAN 15

Oherwydd natur topograffi Ceredigion, mae gorlifdiroedd yn eang ac yn fwy gwastad yn y rhannau isaf, fel y gall dŵr lifo dros ardaloedd ehangach. O ganlyniad i hyn, mae'r Parthau Llifogydd 2 a 3 yn fwy eang at ei gilydd yn y rhannau isaf. Mae rhannau o aneddiadau fel Aberystwyth ac Aberteifi sydd o fewn Parth Llifogydd 3 y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Mewn mannau eraill, mae gorlifdiroedd yn weddol gyfyng ac yn agos i'r cwrs dŵr, fel y gwelir o'r amlinellau Parthau Llifogydd 2 a 3 ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio.

Mewn ardaloedd mynyddig, fel Mynyddoedd Cambria, prin iawn yw'r perygl o lifogydd afonol oherwydd y nodweddion dyffrynol. O ganlyniad i hyn, mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd mynyddig hyn o fewn Parth Llifogydd 1 y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio.

Mae amddiffynfeydd rhag llifogydd a geir ar hyd Afon Eleri, Afon Ystwyth, Afon Aeron, Afon Mwdan ac Afon Rheidol yn cael eu cynnal gan CNC. O ganlyniad i'r amddiffynfeydd rhag llifogydd hyn, mae rhannau o'r gorlifdir afonol wedi'u dynodi'n Barth Amddiffynnol TAN 15. Felly, mae datblygiadau o bob math yn bosibl ar yr amod eu bod yn bodloni'r Profion Cyfiawnhau. Mae safon diogelwch y digwyddiad AEP 1% yn gymwys i'r amddiffynfeydd rhag llifogydd.

Ni fydd datblygiadau newydd dan fygythiad mawr yn ddichonol mewn rhannau o Barth Llifogydd 3 sydd heb amddiffynfeydd, gan nad yw Parth Llifogydd 3 yn addas ar gyfer datblygiadau sydd dan fygythiad mawr. Bydd datblygiadau sydd o dan lai o fygythiad yn bosibl dim ond os byddant yn bodloni'r Profion Cyfiawnhau caeth sydd wedi'u disgrifio yn TAN 15. Gwneir asesiadau safle-benodol ar gyfer datblygiadau yn yr ardaloedd hyn a bydd gofyn am fodelu llifogydd manwl. Oherwydd y diffyg diogelu gan amddiffynfeydd rhag llifogydd CNC, mae'n debygol y bydd angen ystyried mesurau lliniaru perygl llifogydd ar gyfer unrhyw ddatblygu arfaethedig a gellid wynebu mwy o her wrth fodloni gofynion TAN 15.

1.3 Y Llanw

Mae Bae Ceredigion yn ffynhonnell bosibl i lifogydd o'r llanw mewn ardaloedd sy'n agos i afonydd llanwol yng Ngheredigion. Mae llifogydd o'r llanw yn fwyaf tebygol o ddigwydd yn ystod ymchwyddiadau storm lle mae tonnau'n cael eu gyrru gan y gwynt a lle mae gwasgedd atmosfferig isel ac ar adeg penllanw'r gorllanw. Mewn ardaloedd sydd wedi'u diogelu gan amddiffynfeydd rhag llifogydd o'r môr, gall llifogydd llanw ddigwydd o ganlyniad i fylchu'r amddiffynfeydd, methiant rhwystr mecanyddol neu orlifo amddiffynfeydd.

Mae Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio CNC – Y Môr, a welir yn Atodiad B.2, yn dangos bod Afon Dyfi, Afon Rheidol, Afon Teifi ac Afon Aeron yn afonydd sydd dan ddylanwad y llanw o fewn Ceredigion. Felly, ardaloedd o fewn y rhannau isaf yw'r prif leoliadau lle ceir perygl o

1 <https://naturalresources.wales/flooding/managing-flood-risk/find-flood-defence-structures-near-you-the-national-flood-asset-database/?lang=cy>

lifogydd o'r llanw. Er enghraifft, yn rhannau isaf Afon Dyfi (o fewn ffin Ceredigion) mae anheddiad y Borth o fewn Parth Llifogydd 3. Mae aneddiadau llai ymhellach o'r glannau, yn cynnwys Llancynfelyn ac Eglwys-fach hefyd o fewn Parth Llifogydd 3. Mae rhannau o'r Borth wedi'u diogelu gan amddiffynfeydd rhag llifogydd o'r llanw sy'n ymestyn o Ynys-las i'r Borth. Mae'r ardaloedd y tu ôl i'r amddiffynfeydd hyn yn dod o fewn Parth Amddiffynnol TAN 15, felly mae safon diogelwch y digwyddiad llifogydd o'r môr 1 mewn 200 mlynedd yn gymwys i'r ardal hon.

Ceir nifer o amddiffynfeydd eraill rhag llifogydd o'r llanw ar hyd glannau chwith Afon Dyfi. Mae'r rhain ar ffurf argloddiau, yn ymestyn o rannau gorllewinol y Borth i Eglwys-fach. Mae safon diogelwch lai na'r digwyddiad 1 mewn 200 mlynedd yn cael ei darparu gan yr amddiffynfeydd hyn gan nad yw'r ardaloedd y tu ôl iddynt wedi'u dynodi'n Barth Amddiffynnol TAN 15.

Mae rhannau o Aberystwyth sydd o gwmpas y marina wedi'u cynnwys yn y Parth Llifogydd 3 o ganlyniad i orlifo gan donnau a llifogydd o Afon Rheidol sydd o dan ddylanwad y llanw. Ceir Parth Llifogydd 3 hefyd yng Glan-yr-afon i'r gorllewin i ganol tref Aberystwyth o ganlyniad i ddylanwad y llanw ar yr afon. Ceir amddiffynfeydd cyfun rhag llifogydd o'r afon ac o'r llanw ar Afon Rheidol yn agos i'r marina, er nad yw'r ardal y tu ôl iddynt mewn Parth Amddiffynnol TAN 15.

Ceir ardaloedd mewn Parth Llifogydd 3 yng ngogledd-orllewin Aber-arth o ganlyniad i ddylanwad y llanw ar Afon Arth. Nid oes amddiffynfeydd rhag llifogydd a reolir gan CNC yn yr ardal hon.

Mae rhannau helaeth o Aberaeron o fewn Parth Llifogydd 3, o ganlyniad i orlifo gan donnau a dylanwad y llanw ar Afon Aeron. Mae rhan ddwyreiniol Aberaeron o fewn Parth Amddiffynnol TAN 15. Fel arfer, mae hyn yn golygu bod yr ardal wedi'i diogelu rhag y digwyddiad llifogydd llanwol 1 mewn 200 mlynedd. Nid yw mapiau CNC yn dangos unrhyw amddiffynfeydd rhag llifogydd a reolir gan CNC yn yr ardal hon, er ei bod yn ymddangos bod wal llifogydd yn yr ardal. Felly, nid yw'n glir beth yw'r rheswm dros ddynodi'r ardal yn Barth Amddiffynnol TAN 15.

Mae Bae Aber-porth a'i gyffiniau mewn Parth Llifogydd 3, oherwydd gorlifo gan donnau yn ôl pob tebyg. Nid oes amddiffynfeydd rhag llifogydd a reolir gan CNC yn yr ardal hon ac mae'r rhan fwyaf o'r perygl o lifogydd o fewn Bae Aber-porth.

Mae rhannau helaeth o Aberteifi o fewn Parth Llifogydd 3 o ganlyniad i ddylanwad y llanw ar Afon Teifi. Nid oes amddiffynfeydd rhag llifogydd o'r llanw a reolir gan CNC na Pharthau Amddiffynnol TAN 15 yn gysylltiedig â'r llanw o fewn Aberteifi.

Gall y llanw effeithio ar lifogydd ymhellach o lawer o'r arfordir, yn enwedig os bydd lefelau'r môr yn cynyddu yn y dyfodol fel a ragwelwyd.

Perygl Llifogydd o'r Llanw a TAN 15

Mae amddiffynfeydd rhag llifogydd a geir ar hyd yr afonydd llanwol yng Ngheredigion, yn cynnwys ei morlin, yn cael eu cynnal gan CNC. O ganlyniad i'r amddiffynfeydd rhag llifogydd hyn, mae rhannau o Aberteifi, Aberystwyth, Aberaeron, a'r Borth wedi'u dynodi'n Barth Amddiffynnol TAN 15. Felly, mae pob math o ddatblygiad yn ddichonol os gellir bodloni gofynion y Prawf Cyfiawnhau.

Mae'n annhebygol y caniateir datblygiadau sydd o dan fygythiad mawr mewn ardaloedd sydd heb amddiffyniad o fewn y sir. Yn yr ardaloedd hyn lle ceir perygl, mae'n debygol y bydd newid hinsawdd yn arwain at lifogydd o'r llanw o ddyfnder sylweddol dros ardal eang. Oherwydd y cynnydd hwn yn y perygl o lifogydd, gall fod yn anodd bodloni'r meini prawf derbynioldeb yn TAN 15.

Ni ddylid ystyried caniatáu datblygiadau dan lai o fygythiad ym Mharth Llifogydd 3 heb gymhwyso'r Prawf Cyfiawnhau a'r meini prawf derbynioldeb ar gyfer canlyniadau llifogydd. Mae'n debygol y bydd angen mesurau lliniaru llifogydd ar gyfer datblygiadau yn yr ardaloedd hyn. Gwneir asesiadau safle-benodol ar gyfer datblygiadau yn yr ardaloedd hyn a bydd gofyn am fodelu llifogydd manwl. Dylid lleoli cyfleoedd ar gyfer datblygiadau dan fygythiad mawr mewn ardaloedd y tu allan i Barth Llifogydd 3.

1.3.1 Erydu Arfordirol

Er mwyn deall erydu arfordirol o fewn Ceredigion, defnyddiwyd y ffeil siâp Erydu Arfordirol ym Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio CNC. Mae'r ffeil siâp yn rhannu'r cyfnodau erydu i'r categorïau canlynol:

- tymor byr (2005-2025)
- tymor canolig (2025-2055)
- tymor hir (2055-2105)

Gan fod y system gynllunio yn ymwneud yn bennaf ag oes datblygiad weddol hir e.e. 75 i 100 mlynedd, y cyfraddau erydu tymor hir sy'n cael eu trafod yn yr adran hon. Mae'r cyfraddau erydu tymor hir yn amrywiol gan mwyaf ar hyd morlin Ceredigion ac yn amrywio rhwng llai na 20m a mwy na 50m rhwng 2055 a 2105. Mae nifer o ardaloedd hefyd lle nodir bod y risg yn fach iawn neu fod achosion ansefydlogrwydd y clogwyni yn aneglur.

Ceir y cyfraddau erydu uchaf yng Ngheredigion ar ran fach o'r arfordir rhwng Aber-arth a de Llan-non lle mae'r cyfraddau erydu yn fwy na 50m y flwyddyn. Mewn rhannau eraill o'r sir, mae'n ymddangos bod y cyfraddau erydu yn llai difrifol; er enghraifft, rhagwelir y bydd y cyfraddau erydu yn Aber-porth yn llai na 20m rhwng 2055 a 2105. Gwelir cyfraddau erydu tebyg yn y bae yng Ngheinewydd ac eithrio'r pentir lle bydd cyfraddau erydu ychydig yn uwch o lai na 50m.

Mae'r cofnodion am gyfraddau erydu yn Aberaeron yn nodi bod achosion ansefydlogrwydd y clogwyni yn gymhleth heb roi cyfraddau erydu penodol. Ar wefan Ceredigion² darperir rhagor o wybodaeth am yr amodau tonnau y mae'r anheddiad yn eu hwynebu:

"Mae Aberaeron yn agored i ystod eang o donnau o gyfeiriadau'r gogledd-orllewin a'r de-orllewin; gyda thonnau stormydd yn mynd drwy fynedfa'r harbwr ac yn mynd dros waliau'r harbwr, ac yn mynd dros y wal eilradd fewnol."

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i Gyngor Sir Ceredigion ar gyfer dylunio cynllun a fydd yn helpu i liniaru'r perygl o lifogydd yn Aberaeron drwy ddarparu amddiffyniad rhag stormydd, gan obeithio lliniaru effeithiau llifogydd ac erydu arfordirol.

I'r de o brif anheddiad Aberystwyth, dywedir am y cyfraddau erydu fod achosion ansefydlogrwydd y clogwyni yn aneglur heb roi cyfraddau erydu penodol. Fodd bynnag, gwyddys bod gorlifo gan donnau wedi digwydd yn Aberystwyth³ ac mae'n debygol bod hyn wedi cael effaith. Nodir bod y cyfraddau erydu ar arfordir prif anheddiad Aberystwyth yn fach iawn a bod y cyfraddau erydu i'r gogledd o'r anheddiad yn llai na 20m y flwyddyn.

Ym mhrif anheddiad y Borth, cofnodwyd nad yw cyfraddau erydu yn gymwysadwy. I'r gogledd o brif anheddiad y Borth rhwng Ynys-las ac aber Afon Dyfi, nodir bod y cyfraddau erydu yn llai na 50m rhwng 2055 a 2105. Rhwng aber Afon Dyfi ac Eglwys-fach, nodir nad erydu arfordirol yw'r perygl mwyaf yn yr ardal.

Ceir gwybodaeth am y Cynlluniau Rheoli Traethlin a'r Cynlluniau Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd ar gyfer Ceredigion yn Adrannau 3.4.1 a 3.6 yn y prif adroddiad.

1.4 Dŵr wyneb a chyrsiau dŵr llai

Mae mapiau sy'n dangos yr amlinellau llifogydd dŵr wyneb yn ardal Ceredigion wedi'u darparu yn Atodiad B.2.

Mae Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio CNC – Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach yn dangos mai'r rhagolygon ar gyfer llifogydd dŵr wyneb yw y byddant yn dilyn llwybrau llif topograffig y cyrsiau dŵr neu ddyffrynnoedd sych presennol.

Ar hyd Afon Teifi, Afon Aeron, Afon Rheidol, Afon Ystwyth, ac yng ngogledd y Borth ger Afon Dyfi, gwelir llwybrau llif dŵr wyneb amlwg sy'n nodweddiadol o orlifdiroedd ac is-afonydd y cyrsiau dŵr hyn.

Mae Bron-nant a Swyddffynnon yn ddwy ardal lle mae'n ymddangos bod y perygl mwyaf o lifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach, gan fod rhannau ohonynt yn y Parth Llifogydd

² <https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/newyddion/2020/gofyn-barn-ar-gynllun-amddiffyn-yr-arfordir-ar-gyfer-aberaeron/>

³ <https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/newyddion/2021/storm-barra-rhybuddion-llifogydd-yng-ngheredigion/>

3. Gan fod yr ardaloedd hyn o natur eithaf gwledig, mae'r perygl o lifogydd dŵr wyneb yn cael ei gyfeirio oddi wrth ddatblygiadau presennol.

Mae Aberystwyth (Afon Rheidol) a gogledd Felin-fach (Afon Aeron) yn ardaloedd mwy datblygedig lle ceir perygl o lifogydd dŵr wyneb, ac Aberystwyth yw un o'r prif aneddiadau yng Ngheredigion. Mae Parth Llifogydd 3 yn cwmpasu rhannau helaeth o'r aneddiadau hyn, lle mae'r rhan fwyaf o'r datblygiadau sy'n wynebu perygl o lifogydd yn rhai masnachol / diwydiannol, yn ogystal â seilwaith ffyrdd.

Mae Mynyddoedd Cambria o fewn rhan ogledd-ddwyreiniol Ceredigion ac, o ganlyniad i'r nodweddion mynyddig, ceir perygl o lifogydd dŵr wyneb mewn rhannau helaeth o'r ardal hon. Fodd bynnag, mae'r risg i ddatblygiadau yn y dyffrynnoedd o'u cwmpas yn un fach.

Mewn ardaloedd trefol, mae llwybrau llif dŵr wyneb yn cael eu siapiro gan seilwaith trefol a phantiau topograffig. Caiff dŵr wyneb ei sianelu gan y ffyrdd o gwmpas yr aneddiadau, a bydd yn cronni mewn manau agored eang ac mewn pantiau topograffig.

Mae gwaredu dŵr wyneb ffo yn ystyriaeth allweddol, pa un a yw'r safle datblygu o fewn ardal lle ceir perygl llifogydd neu beidio. Byddai datblygu dwys o fewn dalgylch yn gallu arwain at gynnydd mewn dŵr ffo a fyddai, os nad oedd wedi'i reoli'n briodol, yn gallu arwain at gynnydd mewn llifogydd o fewn ardal yr astudiaeth ac ar diroedd is.

Mae datblygiadau newydd hefyd yn gallu cynyddu'r pwysau ar systemau carthffosiaeth a draenio trefol. Felly mae'n bwysig rheoli effaith datblygiadau mewn ffordd gynaliadwy. Er y bydd yn ofynnol bod yr holl gynlluniau draenio dŵr wyneb a gynigir yn rhai sy'n gyson â'r Safonau Statudol ar gyfer SDCau yng Nghymru a'r hierarchaeth gollyngiadau, os ydynt ar gyfer mwy nag un annedd neu lle mae arwynebedd adeiladu o 100m², mae'n annhebygol y caniateir i unrhyw safle datblygu arfaethedig ollwng dŵr wyneb i'r system carthffosydd cyhoeddus, hyd yn oed lle nad yw lefelau blaenoriaeth 1-3 (casglu dŵr glaw, ymdreiddio, a gollwng i gorff dŵr) yn ddichonol.

Perygl Llifogydd Dŵr Wyneb a TAN 15

Gellir caniatáu pob math o ddatblygiad ym Mharth Llifogydd 2 a 3 y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ar yr amod bod modd bodloni'r meini prawf derbynioldeb yn TAN 15. Gwneir asesiadau safle-benodol ar gyfer datblygiadau yn yr ardaloedd hyn lle dylid ystyried llwybrau llif, y posibilrwydd o wastatáu pantiau topograffig a ffyrdd posibl o ddefnyddio SDCau i reoli llif dŵr wyneb ar draws safle datblygu. Dylai datblygwyr ymgynghori â'r ALLIA/Corff Cymeradwyo SDCau i geisio unrhyw wybodaeth benodol ynghylch llifogydd dŵr wyneb a chysiau dŵr bach ar safle datblygu arfaethedig. Lle ceir llifogydd dŵr wyneb lleol, dylid lleoli datblygiadau y tu allan i Barthau Llifogydd 2 a 3 lle y bo modd.

1.5 Perygl llifogydd dŵr daear

Y prif elfennau yn naeareg y creigwely ledled Ceredigion yw cerrig llaid, cerrig silt, a thywodfaen. Lefel isel o fandylledd a hydreddedd sydd gan gerrig llaid ar y cyfan ond mae tywodfaen yn cael ei ystyried yn fwy hydraidd ac mae'n gallu storio dŵr daear a gadael iddo lifo. Felly, yn yr ardaloedd hyn dylid ystyried y posibilrwydd y bydd dŵr daear yn trylifo i fyny ac yn achosi llifogydd wedyn.

Ychydig o ardaloedd yng Ngheredigion sy'n cynnwys dyddodion arwynebol, a cheir y rhan fwyaf o'r rhain o gwmpas y Prif Afonydd, fel Afon Teifi, Afon Aeron, ac Afon Dyfi. Mae dyddodion arwynebol yn cynnwys llifwaddod yn bennaf, sydd wedi'i ffurfio o Glai, Silt, a Thywod. Mae cofnodion hefyd am ddyddodion Til sy'n cael ei ystyried yn hydraidd gan mwyaf. Yng ngogledd y sir ar hyd aber Afon Dyfi, ceir Mawn. Mae amrywiaeth y dyddodion arwynebol ledled y sir yn awgrymu y gall llifogydd dŵr daear beri perygl lleol mewn rhai ardaloedd. Darperir mapiau sy'n dangos dyfnder dangosol llifogydd dŵr daear yng Ngheredigion yn Atodiad B.2. Mae'r map yn asesu'r risg o weld dŵr daear yn codi i'r wyneb ac nid y llifogydd dŵr daear a geir o ganlyniad. Yn aml, ni fydd llifogydd dŵr daear yn digwydd oni bai fod dŵr daear heb rywle i fynd iddo heb gronni neu orlifo mewn ardal yn gyntaf.

Yn y rhan fwyaf o ardal Ceredigion, dangoswyd bod y lefelau dŵr daear o leiaf 5m o dan wyneb y ddaear. Yn y gogledd, ger Afon Dyfi ac Afon Rheidol, mae rhai ardaloedd lleol lle mae'r lefelau dŵr daear ar lefel wyneb y ddaear neu'n agos iawn iddi (o fewn 0.025m). Mae

lefelau dŵr daear Afon Aeron yn uchel iawn rhwng Llangeitho a Llannerch Aeron, lle dangoswyd bod ardal eang lle mae lefelau dŵr daear ar lefel wyneb y ddaear neu'n agos iawn iddi (o fewn 0.025m). Yn neau Ceredigion, ceir y lefelau dŵr daear mwyaf eang ar hyd Afon Teifi, ac mewn lleoliadau rhwng Tregaron a Llanbedr Pont Steffan gwelir lefelau dŵr daear sy'n 5m ar y mwyaf o dan wyneb y ddaear, ac mewn rhan helaeth o'r ardal hon cofnodwyd bod y lefelau dŵr daear ar lefel wyneb y ddaear neu'n agos iawn iddi (o fewn 0.025m). Yn rhannau isaf Afon Teifi, rhwng Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi, mae'r rhan fwyaf o'r lefelau dŵr daear rhwng 0.5m a 5m dan wyneb y ddaear. Dangoswyd bod lefelau dŵr daear yr isafonydd yn rhannau isaf Afon Teifi yn uwch o lawer.

Aberteifi yw'r prif anheddiad o fewn Ceredigion lle mae'r lefelau dŵr daear yn agosaf i'r wyneb. Dangoswyd bod y rhan fwyaf o'r lefelau dŵr daear o leiaf 0.5m o dan wyneb y ddaear. Er hynny, ceir mannau lleol o fewn yr anheddiad, ac o'i gwmpas, lle dangoswyd bod y lefelau dŵr daear rhwng 0.025m a 0.5m o dan wyneb y ddaear, a bod rhai mannau bach lle mae lefelau dŵr daear uchel sydd ar lefel wyneb y ddaear neu'n agos iawn iddi (o fewn 0.025m). Nid yw'r ffaith bod perygl mawr o lifogydd dŵr daear mewn parth penodol yn golygu o reidrwydd na ellir defnyddio technegau ymdreiddio ar gyfer systemau draenio cynaliadwy (SDCau), er eu bod yn llai tebygol o fod yn addas. Bydd y Corff Cymeradwyo SDCau yn gofyn bob amser am asesiad safle-benodol o'r posibilrwydd o ddefnyddio technegau ymdreiddio.

Perygl Llifogydd Dŵr Daear a TAN 15

Nid yw TAN 15 yn pennu unrhyw ofynion ar gyfer perygl llifogydd dŵr daear, heblaw y dylid ystyried perygl llifogydd dŵr daear wrth wneud AGLI. Fodd bynnag, byddai'n ddoeth lleoli datblygiadau oddi wrth ardaloedd lle mae lefel dŵr daear yn llai na 0.025m dan wyneb y ddaear os na wneir rhagor i fonitro dŵr daear a llunio asesiadau manwl.

1.6 Llifogydd o garthffosydd

Mae DCWW yn gyfrifol am y seilwaith carthffosydd ar draws ardal yr astudiaeth, ac am gofnodi digwyddiadau llifogydd mewn carthffosydd.

Mae DCWW wedi darparu manylion am ddigwyddiadau hanesyddol ac ardaloedd lle ceir perygl. Cofnodir digwyddiadau llifogydd hanesyddol mewn perthynas â charthffosydd budr, cyfun neu ddŵr wyneb cyhoeddus. Mae'r cofnodion hyn yn dangos nifer yr unedau eiddo lle cafwyd llifogydd mewnol a/neu allanol. Mae crynodeb o ddsbarthiad gofodol y digwyddiadau llifogydd hanesyddol mewn carthffosydd yn ôl ward etholiadol yn Nhabl 2-1. Nid yw wardiau lle cofnodwyd 'dim data' wedi'u cynnwys yn Tabl 1-2. Mae'r data hyn yn dangos mai'r ward lle cofnodwyd y nifer mwyaf o ddigwyddiadau llifogydd yw Aberteifi/Cardigan-Teifi.

Mae DCWW yn ymdrechu i leihau nifer y digwyddiadau llifogydd mewn carthffosydd drwy fuddsoddi mewn gwaith cynnal a gwelliannau i'r rhwydwaith carthffosydd.

Nid yw DCWW wedi darparu unrhyw wybodaeth am y rhagolygon o'r perygl llifogydd o'r rhwydwaith carthffosydd.

Tabl 1-2 Digwyddiadau Llifogydd o Garthffosydd yn ôl Ward Etholiadol

Ward Etholiadol	Nifer y digwyddiadau llifogydd o garthffosydd
Aberteifi/Cardigan - Teifi	41
Y Borth	24
Llanbadarn Fawr - Padarn	21
Llandyfriog	15
Llandysilio-gogo	13
Llannarth	12
Ceulan a Maesmawr	11
Ciliau Aeron	10
Tirymynach	9
Aber-porth	8
Aberteifi/Cardigan - Rhyd-y-fuwch	6

Aberaeron	5
Aberystwyth Penparcau	5
Aberystwyth Rheidol	5
Pen-parc	4
Aberteifi/Cardigan - Mwldan	3
Tref Llandysul	3
Faenor	2
Trefeurig	2
Beulah	1
Llanbadarn Fawr - Sulien	1
Llanfarian	1
Llangeitho	1
Llansanffraid	1
Llanwenog	1
Ceinewydd	1

Perygl Llifogydd o Garthffosydd a TAN 15

Nid yw TAN 15 yn pennu unrhyw ofynion ar gyfer perygl llifogydd o garthffosydd, heblaw y dylid ei ystyried wrth wneud AGLI. Dylid ymgynghori â'r ALILIA a DCWW i ofyn iddynt ddarparu cyngor penodol ar unrhyw hanes hysbys o lifogydd o garthffosydd ac unrhyw gamau adfer a gymerwyd.

1.7 Llifogydd o ffynonellau artiffisial

Mae ffynonellau llifogydd artiffisial yn cynnwys cronfeydd dŵr sydd o fewn neu'n uwch na'r sir sy'n peri risg llifogydd i ardal Ceredigion. Darperir mapiau sy'n dangos y perygl llifogydd dichonol o gronfeydd dŵr yn Atodiad B.2. Y cronfeydd dŵr sy'n peri risg llifogydd i'r sir yw:

- Cwm Rheidol
- Dinas
- Llyn Conach
- Llyn Craig-y-pistyll
- Llyn Egnant
- Llyn Fron-goch
- Llyn Glandwgan
- Llyn Nant-y-cagal
- Llyn Pendam
- Llygad Rheidol
- Llyn Rhos-rhydd
- Llyn Syfydrin
- Llyn Teifi
- Llyn-y-gwaith
- Llyn-yr-oerfa
- Nant-y-moch
- Pond-y-gwaith

Mae Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio CNC – Cronfeydd Dŵr yn dangos mai ardaloedd amlinellau llifogydd Llyn Conach, Nant-y-moch, Dinas a Chwm Rheidol – sydd i gyd ar hyd

Afon Rheidol – yw'r ardaloedd a fyddai'n profi'r effaith fwyaf o ganlyniad i fylchu neu orlifo cronfa ddŵr, a fyddai'n cael effaith fawr ar Aberystwyth.

Mae methiant mewn cronfa ddŵr yn gallu achosi difrod trychinebus am fod meintiau mawr o ddŵr yn cael eu rhyddhau ar unwaith. Mae hanes rhagorol gan gronfeydd dŵr yn y DU o ran diogelwch, a CNC yw'r awdurdod gorfodi ar gyfer Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yng Nghymru a Lloegr. Rhaid i'r holl gronfeydd dŵr mawr gael eu harchwilio a'u goruchwyllo gan beirianwyr y panel cronfeydd dŵr. Cymerir bod y cronfeydd dŵr hyn yn cael eu harchwilio'n rheolaidd, a bod gwaith diogelwch hanfodol yn cael ei gyflawni. Felly, mae'r risg sy'n cael ei hachosi gan y cronfeydd dŵr hyn yn fach iawn.

Yn TAN 15, nodir y byddai unrhyw ddatblygiad o fewn dalgylch llifogydd cronfa ddŵr yn gallu arwain at newid categori bygythiad y gronfa ddŵr. Mae'n bwysig bod awdurdodau cynllunio yn codi unrhyw oblygiadau posibl i berchnogion neu weithredwyr cronfeydd dŵr, fel rhai'n ymwneud â dyrannu safleoedd ar gyfer datblygu mewn ardaloedd llifogydd, mewn ffordd agored ac adeiladol.

1.8 Newidiadau o ran deall perygl llifogydd

Buddsoddi Cyfalaf mewn Mesurau FCERM

Mae CNC wedi penodi ymgynghorwyr peirianeg i ddatblygu Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd newydd ar gyfer Aberteifi, Ceredigion. Cynigir adeiladu'r cynllun yn y cyfnod 2023-2025.

Gwelliannau i'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn y dyfodol

Mae'r lleoliadau yn y rhestr isod wedi'u cynnwys ym modelau llifogydd presennol CNC a disgwylir y bydd y rhain wedi'u cynnwys yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio drwy ddiweddariadau rheolaidd yn y dyfodol. Nid yw CNC wedi nodi dyddiadau ar gyfer y diweddariadau hyn.

- Aberystwyth
- Y Borth
- Capel Bangor
- Llandysul Pentre
- Llanbedr Pont Steffan
- Mwldan
- Parc Teifi
- Tal-sarn